**Reidio Beic**

Dow-dow.
Ara' deg.
Igam-ogam.
Wibli-wobli.

Yna…

Sythu.
Cyflymu.
Gwthio'r pedalau'n gynt.
Teimlo'r gwynt.

Gwibio.
Mynd heb ddwylo.
Mentro.

Dro ar ôl tro,
Eto ac eto.

Reidio bob dydd,
O hyd ac o hyd,
Nes cyrraedd llinell derfyn
Pencampwriaeth y Byd.